**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref KS/1407/20

**Cylchlythyr i Fanwerthwyr yng Nghymru**

British Retail Consortium
Association of Convenience Stores
Federation of Small Businesses
British Independent Retail Association
Healthy Working Wales
Local Authorities
Wales Health at Work Partnership
Welsh Local Government Association
Usdaw

Gorffennaf 2020

**Rheolau diwygiedig ar gyfer cadw pellter corfforol**

Prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru o hyd yw parhau i ddiogelu'r cyhoedd rhag y coronafeirws. I wneud hynny, rydym wedi gwneud newidiadau graddol a chall i'r gofynion a darparu eglurder i'r cyhoedd a busnesau ynghylch sut orau i reoli'r risgiau wrth i'r pandemig barhau. Fel rhan o hynny, hoffwn dynnu eich sylw at ein rheolau diwygiedig ar gadw pellter corfforol ac (yn fwy cyffredinol) leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y gweithle ac mewn mangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd – mae gwybodaeth am yr elfennau allweddol yn yr atodiad, ond mae'r manylion llawn i'w gweld yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020:

https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/rheoliadau-diogelu-iechyd-cyfyngiadau-coronafeirws-rhif-2-cymru-2020.pdf

Wrth inni lacio rhai o'r cyfyngiadau ar gyfer y cyhoedd yn fwy cyffredinol, mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn cymryd camau ymarferol i liniaru'r risgiau. Felly, mae'r rheoliadau yn cynnwys dull mwy manwl o fynd ati i sicrhau bod pob mesur rhesymol yn cael ei gymryd i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws. Mae hyn yn dal i fod yn seiliedig ar gadw pellter cymdeithasol o 2m ond mae hefyd yn cyflwyno gofynion ychwanegol mewn perthynas â hylendid, cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb a darparu gwybodaeth i weithwyr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

a'r cyhoedd. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd rhai achlysuron na fydd modd cadw pellter o 2m ac mae'r mesurau ychwanegol y bydd angen i fusnesau eu rhoi yn eu lle yn arbennig o bwysig yn y cyd-destun hwnnw.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar weithredu'r gofynion cyfreithiol y mae angen eu hystyried. Mae'r canllawiau i'w gweld yma:

https://llyw.cymru/cymryd-pob-mesur-rhesymol-i-leihaur-risg-o-ddod-i-gysylltiad-ar-coronafeirws-mewn-gweithleoedd

Rydym yn cydnabod, wrth iddynt ailagor, fod manwerthwyr yn rhoi yn eu lle amrywiaeth eang o fesurau, gan gynnwys cyflwyno systemau un ffordd, cyfyngu ar nifer y bobl sy'n mynd i mewn i siopau a rhoi sgriniau i fyny, i sicrhau bod eich siopau yn weithleoedd diogel ac yn fannau diogel i'r cyhoedd. Rydym yn ddiolchgar am hynny ac yn cydnabod bod y mesurau hyn, ynghyd â hylendid personol da, gan gynnwys golchi dwylo yn ein helpu i atal y coronafeirws rhag lledu yn ein cymunedau. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y bydd rhai amgylchiadau lle na fydd cadw pellter corfforol yn bosibl nac yn ddigonol, a bydd angen cymryd camau pellach gan gynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol. Er nad ydym yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i bobl wisgo gorchudd wyneb mewn mangreoedd manwerthu, fe'ch cynghorwn i ystyried ei fod yn briodol neu'n angenrheidiol ichi ofyn i'ch cwsmeriaid wisgo gorchudd wyneb. Dylid ystyried hyn, ochr yn ochr â'r mesurau eraill a ddisgrifir yn yr atodiad, fel rhan o'r asesiad risg y bydd angen ichi ei gyflawni i sicrhau eich bod wedi rhoi'r holl fesurau rhesymol yn eu lle i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn eich mangre chi.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

## ATODIAD – Darpariaethau penodol yn ymwneud â gweithleoedd

RHAN 3 Lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws mewn mangreoedd agored ac wrth weithio

Mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws

12.—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys i berson sy'n gyfrifol am— (a) mangre agored, neu (b) gwaith a wneir mewn unrhyw fangre arall lle y mae person yn gweithio.

(2) At ddibenion lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws yn y fangre, rhaid i'r person—

(a) cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau— (i) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwyr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr); (ii) pan fo'n ofynnol i bersonau aros i fynd i'r fangre, fod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu ofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr),

(b) cymryd unrhyw fesurau rhesymol eraill at y diben hwnnw, er enghraifft mesurau sy'n cyfyngu ar ryngweithio agos wyneb yn wyneb ac sy'n cynnal hylendid megis— (i) newid trefn y fangre gan gynnwys lleoliad y dodrefn a'r gweithfannau; (ii) rheoli'r defnydd o fynedfeydd, tramwyfeydd, grisiau a lifftiau; (iii) rheoli'r defnydd o gyfleusterau a rennir megis toiledau a cheginau; (iv) fel arall rheoli'r defnydd o unrhyw ran arall o'r fangre neu fynediad iddi; (v) gosod rhwystrau neu sgriniau; (vi) darparu, neu'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio, cyfarpar diogelu personol, ac

(c) darparu gwybodaeth i'r rhai sy'n dod i mewn neu'n gweithio yn y fangre ynglŷn â sut i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "mangre agored" yw - (a) mangre busnes neu wasanaeth a restrir yn Atodlen 4; (b) addoldai; (c) mynwentydd; (d) mangre busnes a restrir yn Atodlen 1 nad yw'n ofynnol iddynt gau yn unol â rheoliad 6; (e) mangre busnes a restrir yn Atodlen 2 y caniateir iddi fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 7(2); (f) mangre busnes a restrir yn Atodlen 3 y caniateir iddi fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 8(2) neu (3); (g) amlosgfeydd y caniateir iddynt fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 10(2); (h) canolfannau cymunedol y caniateir iddynt fod ar agor yn rhinwedd rheoliad 10(4).

(4) At ddibenion y rheoliad hwn mae "mangre" hefyd yn cynnwys cerbyd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth ar gyfer cludo teithwyr ar ffyrdd, rheilffyrdd, tramffordd, awyr neu fôr.